O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1694 (Cy. 219)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael tua'r Gogledd wrth Gyfnewidfa Nantgarw, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2012

Gwnaed	*28 Mehefin 2012*
Yn dod i rym	*9 Gorffennaf 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Gorffennaf 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael tua'r Gogledd wrth Gyfnewidfa Nantgarw, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2012.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 9 Gorffennaf 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw: